**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 23 AWST 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mrs. Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 11:15

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes).

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd Aelodau'n cael eu briffio ar faterion y gweithlu ar ôl y cyfarfod.

2.2. Yn dilyn y gwahoddiad fis diwethaf i Gadeirydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Loegr, mae wedi derbyn ein gwahoddiad i fynychu cyfarfod mis Medi. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gwneud trefniadau.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Awst 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1, 2, 3) Arolygon Etholiadol – Amserlen, Polisi ac Arfer a Model Maint Cynghorau – Mae'r Amserlen a dogfennau cysylltiedig wedi'u cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn eu cymeradwyo. Yn disgwyl am ymateb.
- (Mater 4) Arolygon Etholiadol – Ystadegau Etholiadol – Mae'r ystadegau etholiadol wedi'u derbyn erbyn hyn ar gyfer yr holl Gynghorau bron. **Dirprwy Brif Weithredwr a'r Swyddogion Arolygon**
- (Mater 5) Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Arolygon Etholiadol – disgwyl am gytundeb i'r amserlen cyn bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu. **Prif Weithredwr**

- (Mater 7) Staffio – recriwtio Dau Swyddog Arolygon – Ni chafwyd unrhyw ymgeiswyr yn sgil yr ymarferiad recriwtio diweddaraf ar gyfer dau Swyddog Arolygon ychwanegol. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ddechrau cyfnod recriwtio arall. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 11) Gwasanaethau Cyfreithiol – Yn disgwyl ymateb gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. **Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 12) Safonau'r Gymraeg – Derbyniwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol gan y Comisiwn yn ddiweddar, bydd yn cael ei gymharu â chynllun trosiannol y Comisiwn, gydag unrhyw newidiadau a wneir fel bydd yn briodol yn dechrau cael eu gweithredu'r flwyddyn nesaf. **Rheolwr Cymorth Busnes a'r Prif Weithredwr.**
- (Mater 17) Strategaeth TG – Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn yn ddiweddarach, yn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â'i strategaeth TG yn y dyfodol. **Dirprwy Brif Weithredwr.**

## 5. Adroddiad Blynyddol 2015-16

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Gorffennaf 2016 gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol yn ymgorffori'r holl ddiwygiadau a gytunwyd yn flaenorol, ynghyd â'r fersiwn archwiliedig derfynol o'r cyfrifon blynyddol cryno.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn Adroddiad Blynyddol 2015-16 yn amodol ar fân ddiwygiad ym mharagraff 3.9 i newid cyfeiriad at y Comisiwn o'r lluosog i'r sengl. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn dechrau'r broses o gyhoeddi'r adroddiad ar gyfer gwefan y Comisiwn ac i'w ddosbarthu i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r holl bartïon eraill â buddiant.

## 6. Cynllunio Arolygon Etholiadol gan y Comisiynydd Arweiniol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Awst 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. **Derbyniwyd** y byddai'r Cadeirydd yn mynychu'r holl Gyfarfodydd Cychwynnol, i roi sicrwydd i'r holl Gynghorau cysylltiedig ac i ymgysylltu mor llawn ag y bo modd. Nodir y bydd Julie May a Theodore Joloza yn mynychu Cyfarfod Cychwynnol yr un er mwyn arsylwi a hyrwyddo'u gwybodaeth am rôl y Comisiynydd Arweiniol cyn ymgymryd â'u harolygon cyntaf o Bowys a Chonwy.

6.3. **Derbyniwyd** na fyddai'r Cadeirydd yn gweithredu fel Comisiynydd Arweiniol, er mwyn cadw'n ddiduedd trwy gydol yr arolygon. Ond hefyd i gynorthwyo gydag unrhyw anawsterau trwy gydol y cyfnod, fel salwch.

6.4. **Derbyniodd** y Comisiwn y byddai'r Comisiynwyr canlynol yn gweithredu fel Comisiynwyr Arweiniol ar gyfer yr arolygon sydd i'w cynnal –

- **<u>Ceri Stradling</u>** – Ceredigion; Sir Benfro; Blaenau Gwent; Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd; Ynys Môn.
- **<u>Dave Powell</u>** – Gwynedd; Torfaen; Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Caerffili; Sir Fynwy.
- **<u>Julie May</u>** – Powys; Sir Gaerfyrddin; Merthyr Tudful; Wrecsam; Bro

Morgannwg; Arolwg Cymunedol Sir Fynwy.

- **Theodore Joloza** – Conwy; Sir Ddinbych; Abertawe; Sir y Fflint; Caerdydd.
- Bydd y Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd cychwynnol gyda Chynghorau, a bydd yn dirprwyo fel bo'r angen.

**7. Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 2 Awst 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016, ynghyd â chofnodion y cyfarfod a gymeradwywyd. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi codi (cofnod 17.2) "…y risg bosibl i gyllid CFfDLC yn dilyn pleidlais y refferendwm diweddar i adael yr Undeb Ewropeaidd," a gwnaeth gais i'r Comisiwn roi ystyriaeth i'r mater.

7.3. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn drafftio papur yn ymwneud â'r risgiau posibl i gyllid y Comisiwn yn sgil canlyniad y refferendwm ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. **Prif Weithredwr / Rheolwr Cyllid**

**8. Cynllun Archwilio Mewnol – Gwaith Archwilio Mewnol Ychwanegol Arfaethedig**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Awst 2016 gan y Rheolwr Cyllid i ofyn am farnau Aelodau ar newidiadau arfaethedig y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i Gynllun Archwilio Mewnol y Comisiwn. Ystyriwyd na fyddai unrhyw fudd i gynnal archwiliad ar arolygon etholiadol y Comisiwn yn ystod 2017-18 gan na fydd digon o waith arolwg wedi'i gwblhau, er y gallai fod yn werth cynyddu amser archwilio presennol ar arolygon etholiadol ar gyfer 2018-19 ymlaen**.**

8.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a **Chytunodd** y byddai'r amserlen archwilio fewnol bresennol ar gyfer 2017-18 yn cael ei chadw ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu amser archwilio ychwanegol i'r cynllun i gynnwys arolygon etholiadol ar gyfer 2018-19 ymlaen. Cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei ddrafftio i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei anfon at Deloitte yn eu hysbysu o benderfyniad y Comisiwn. **Rheolwr Cyllid**

**9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 2 Awst 2016 gan y Rheolwr Cyllid yn ymwneud â Rheolaeth Risg y Comisiwn.

9.2. **Cytunodd** y Comisiwn y gofrestr risgiau wedi'i diweddaru a'r adroddiad rheoli risg yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

- CR2 – Cynyddu'r lefelau risg gynhenid a risg weddilliol yn dilyn anawsterau a gafwyd gydag ymarferiad recriwtio diweddar, ac ychwanegu camau lliniaru pellach yn cwmpasu recriwtio a strwythur staffio.
- CR10 – Lleihau tebygolrwydd risg weddilliol o 5 i 3.
- CR12 – Ychwanegu cam lliniaru i dynnu sylw at ddyrannu Comisiynwyr

Arweiniol ar gyfer yr Arolygon Etholiadol sydd i'w cynnal.

- CR13 – Newid dyddiad terfyn risg o Fawrth 2019, i Ionawr 2019.

**Rheolwr Cyllid**

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Awst 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. **Nododd** y Comisiwn sefyllfa'r gyllideb bresennol ar gyfer 2016-17 ac y byddai angen newidiadau pellach i'r dyraniadau cyllideb yn dilyn cadarnhad o gyllideb ychwanegol y Comisiwn yn y dyfodol a recriwtio staff ychwanegol.

## 11. Cyfarfod Is-bwyllgor y Gweithlu 26 Gorffennaf 2016

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Awst 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr

11.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 12. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Awst 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. **Nodwyd** y Calendr Digwyddiadau.

## 14. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

14.1. **Ymgynghoriad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ffioedd.**

- Hysbysodd y Prif Weithredwr y Comisiwn o'r adroddiad ymgynghori a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a **Phenderfynwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn anfon ymateb i'r ymgynghoriad**.**

14.2. **Argaeledd Comisiynwyr**

- Cytunodd y Comisiwn y byddai'n fuddiol, yn enwedig yn ystod y cyfnod cynnal arolygon etholiadol, i hysbysu'r Comisiwn pan fyddant ar wyliau neu pan na fyddant ar gael fel arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 27 Medi 2016**